Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

# Ymgynghoriad ar y Datganiad Polisi Buddsoddi


| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 22 Mehefin 2026 |
| **Cyfeirnod:** | Medr/2026/25 |


| | |
|---|---|
| **At:** | Benaethiaid sefydliadau addysg uwch<br>Penaethiaid colegau addysg bellach<br>Cyfarwyddwyr Addysg<br>Penaethiaid chweched dosbarth mewn ysgolion<br>Arweinwyr dysgu oedolion yn y gymuned mewn awdurdodau lleol<br>Deiliaid contract prentisiaeth |

| | |
|---|---|
| **Ymatebwch erbyn:** | 3 Awst 2026 |
| **Rhagor o wybodaeth:** | BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru |


**Crynodeb:**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar y Datganiad Polisi Buddsoddi ar gyfer darparwyr addysg drydyddol a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff y Datganiad Polisi Buddsoddi ei roi ar waith yn 2026. Gwahoddir pob darparwr addysg drydyddol a hyfforddiant a rhanddeiliaid eraill i ymateb.



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

**Cefndir**

1. Mae adran 87 o [Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022] yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr) gyhoeddi datganiad polisi ar y ffordd rydym bwriadu arfer ein pwerau cyllido. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Medr ymgynghori ar y Datganiad Polisi Buddsoddi hwn.

**Adran 87: Polisi ar bwerau cyllido**

2. Mae'r Ddeddf yn nodi:
   - Rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi datganiad polisi ar y ffordd y mae'n bwriadu arfer ei bwerau cyllido.
   - Wrth baratoi'r datganiad, rhaid i'r Comisiwn ystyried yr egwyddor y dylai penderfyniadau ynglŷn â darparu neu sicrhau adnoddau ariannol gael eu gwneud mewn ffordd sy'n dryloyw.
   - Rhaid i'r Comisiwn adolygu'r datganiad yn rheolaidd, a gall ei ddiwygio.
   - Cyn cyhoeddi'r datganiad neu ddatganiad diwygiedig, rhaid i'r Comisiwn ymgynghori ag unrhyw bersonau y mae'n eu hystyried yn briodol.
   - Pwerau'r Comisiwn i ddarparu neu sicrhau adnoddau ariannol yn unol ag adrannau **88**, **89**, **97**, **101**, **103**, **104** a **105** yw ei bwerau cyllido.
     - adran 88 (darparwyr addysg uwch penodedig);
     - adran 89 (cyrsiau addysg uwch a bennir mewn rheoliadau);
     - adran 97 (addysg bellach neu hyfforddiant);
     - adran 101 (chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol);
     - adran 103 (gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig ag addysg drydyddol);
     - adran 104 (prentisiaethau); ac
     - adran 105 (ymchwil ac arloesi).

3. Daw adrannau 88, 104 a 105 i rym yn y dyfodol. Serch hynny, bwriedir i'r datganiad hwn lywio ein penderfyniadau buddsoddi sy'n gysylltiedig ag addysg uwch, prentisiaethau ac ymchwil ac arloesi.

**Dull ymgynghori**

4. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn amrywiaeth eang o ddarparwyr a rhanddeiliaid, ac rydym yn awyddus i gael adborth ynghylch a yw'r Datganiad Polisi Buddsoddi a geir yn **[Atodiad A]** yn cynnig sylfaen briodol a thryloyw ar gyfer penderfyniadau buddsoddi Medr drwy'r sector addysg drydyddol ac ymchwil gyfan ai peidio.

5. Caiff yr ymgynghoriad ei gynnal mewn dau gam.

- Nod Cam 1 yw casglu safbwyntiau gan amrywiaeth eang o randdeiliaid ym mhob rhan o'r sector. Caiff yr ymgynghoriad ei gynnal o ddydd Llun 22 Mehefin tan ddydd Llun 3 Awst.
- Bydd Cam 2 yn canolbwyntio'n benodol ar ymgysylltu â dysgwyr, ac fe'i cynhelir rhwng 14 Medi a 12 Hydref, ar yr un pryd â dechrau'r flwyddyn academaidd er mwyn helpu i ymgysylltu mewn modd amserol ac ystyrlon.

**Sut i ymateb**

6. Gellir cyflwyno ymatebion drwy’r ffurflen ar-lein erbyn 3 Awst 2026.

7. Gallwch ddod o hyd i gopi o gwestiynau’r ymgynghoriad yn **Atodiad B**.

8. Rydym yn croesawu ymatebion yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

**Beth fydd yn digwydd nesaf**

9. Byddwn yn ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus cyn cadarnhau’r Datganiad Polisi Buddsoddi terfynol. Caiff crynodeb o'r ymatebion ac ein hymateb i'r ymgynghoriad eu cyhoeddi ar ein gwefan.

10. Bydd y datganiad terfynol yn llywio ein dull buddsoddi yn y dyfodol ac yn cefnogi tryloywder ac atebolrwydd yn y ffordd y caiff cyllid cyhoeddus ei ddefnyddio ym mhob rhan o'r sector addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru.

**Rhagor o wybodaeth**

11. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cylchlythyr hwn at y tîm Buddsoddiad a Monitro (BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru).

www.medr.cymru

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**